



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Y Gronfa Ariannol Wrth Gefn

Adolygu'r Fethodoleg Ddyrannu

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2019
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 18 Mawrth 2019

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ar y newidiadau arfaethedig i'r modd y dyrennir cyllideb y Gronfa Ariannol Wrth Gefn i sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru.

Sut mae ymateb

Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod erbyn **18 Mawrth 2019** fan bellaf.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Yr Is-adran Addysg Uwch
Y Gyfarwyddiaeth Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu
Gydol Oes
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: HEDConsultationsMailbox@gsi.gov.uk

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgwymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth. Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich Hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

e-bost:

Data.ProtectionOfficer@gov.wales

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan:
<https://ico.org.uk/>

Rhagair gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes

Mae'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn wedi bod ar gael i fyfyrwyr sydd eisiau parhau i astudio y tu hwnt i'w haddysg orfodol ers 1991. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y gallai fod yn anodd i rai myfyrwyr barhau â'u hastudiaethau oherwydd y gost. Bydd natur y costau sy'n achosi anhawster yn amrywio yn ôl yr heriau penodol sy'n wynebu dysgwyr unigol. Felly, mae darpariaeth ariannol wedi'i gwneud i helpu myfyrwyr gyda'r costau a allai lesteirio'i mynediad at addysg bellach neu eu hachosi i roi'r gorau i astudio.

Ar sail flynyddol, mae Llywodraeth Cymru'n rhyddhau dyraniad o'r Gronfa i Sefydliadau Addysg Bellach (SAB) i'w roi i'w myfyrwyr ar ein rhan. Fel hyn, gall cymorth gael ei deilwra i anghenion y myfyriwr a fydd yn amrywio mewn natur o fewn a rhwng sefydliadau. Ar hyn o bryd mae dyraniad pob SAB o'r gronfa yn seiliedig ar gyfran sefydledig o'r gyllideb sydd ar gael bob blwyddyn. Mae cryn amser ers i'r fethodoleg sy'n sail i'r dyraniad gael ei hadolygu, i sicrhau bod y gyllideb sydd ar gael yn cael ei rhannu rhwng sefydliadau mewn modd teg a thryloyw y gellir ei hailadrodd.

Yn 2013, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Old Bell 3, ymgynghoriaeth ymchwil, gynnal gwerthusiad o'r Gronfa. Daeth i'r casgliad y dylem barhau i ariannu'r Gronfa ar sail disgresiwn. Roedd yn argymhell hefyd y dylid addasu'r fethodoleg a ddefnyddir i ryddhau cyllid i sefydliadau unigol er mwyn adlewyrchu'n well nifer y myfyrwyr maent yn eu gwasanaethu a'u hamgylchiadau.

Rwy'n cynnig moderneiddio'r dyraniad drwy ei seilio ar fformiwla sy'n ystyried y wybodaeth ddiweddaraf sydd gennym bob blwyddyn am niferoedd myfyrwyr a'r lefelau amddifadedd economaidd. Bydd hyn yn darparu ar gyfer dull teg a thryloyw y gellir ei ailadrodd i rannu cyllideb y Gronfa, gan alluogi sefydliadau i barhau i gyfeirio eu dyraniad tuag at anghenion penodol y dysgwyr maent yn eu gwasanaethu, boed yn gymorth gyda chostau gofal plant, trafnidiaeth, deunyddiau dysgu neu rwystrau eraill i astudio.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Kirsty Williams AC

Beth yw'r prif faterion?

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried sefydlu fformiwla newydd ar gyfer dyrannu cyllideb flynyddol y Gronfa Ariannol Wrth Gefn i Sefydliadau Addysg Bellach (SAB), yn seiliedig ar niferoedd myfyrwyr a nifer y myfyrwyr o deuluoedd incwm isel. Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn amlinellu'r fformiwla sydd mewn golwg a'r gwahanol rannau ohoni ac yn gofyn am farn arnynt. Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw 30 Tachwedd 2018.

Beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd?

Bob blwyddyn mae Llywodraeth Cymru yn rhyddhau cyllid y Gronfa i SAB i'w roi i fyfyrwyr ar sail disgresiwn. Mae penderfynu ar ddyraniadau colegau unigol wedi'i wneud ar sail cyfran hanesyddol o'r gyllideb sydd ar gael bob blwyddyn. Fodd bynnag, mae'r sail ar gyfer y dyraniadau wedi bod ar waith ers blyneddau lawer, fel cyfran sefydlog o'r gyllideb gyffredinol. Cynigir methodoleg ddiwygiedig, i sicrhau bod y gyllideb sydd ar gael yn cael ei rhannu rhwng sefydliadau mewn modd teg a thryloyw y gellir ei ailadrodd.

Mae'r tabl isod yn dangos y ganran o gyllideb y Gronfa sy'n cael ei dyrannu i bob sefydliad ar hyn o bryd a'r swm a ddyrannwyd iddynt yn 2017-18.

Sefydliad	Canran o'r gyllideb	Dyraniad y Gronfa
Addysg Oedolion Cymru	0.91%	£57,311.69
Penybont	5.38%	£338,766.40
Coleg Caerdydd a'r Fro	10.23%	£644,244.76
Coleg Cambria	11.29%	£711,082.43
Coleg Ceredigion	2.07%	£130,516.74
Coleg Gwent	12.02%	£757,129.90
Coleg Sir Gâr	5.13%	£323,271.96
Coleg y Cymoedd	13.08%	£824,242.30
Coleg Gŵyr	7.80%	£491,201.36
Grŵp Llandrillo Menai	12.11%	£763,163.56
Coleg Merthyr Tudful	4.41%	£278,006.43
Grŵp Castell-nedd Port Talbot	10.59%	£667,199.37
Coleg Sir Benfro	3.41%	£214,631.13
Coleg Dewi Sant	0.87%	£54,588.99
Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol	0.71%	£44,642.97
Cyfanswm		£6,300,000

Nodwch fod y canrannau'n cael eu dangos i ddau le degol.

Yr achos dros newid

Yn 2013, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Old Bell 3, ymgynghoriaeth ymchwil, gynnal gwerthusiad o'r Gronfa. Daeth i'r casgliad y dylai Llywodraeth Cymru barhau i ariannu'r Gronfa ar sail disgrisiwn. Roedd yn argymhell hefyd y dylai Llywodraeth Cymru gyfathrebu'r fethodoleg a ddefnyddir i ryddhau cyllid i sefydliadau unigol a'i haddasu er mwyn adlewyrchu'n well niferoedd myfyrwyr, amddifadedd (incwm isel) ac ystyried ffactorau eraill fel gwledigrwydd.

Y Gronfa Ariannol Wrth Gefn

Mae'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn wedi bod ar gael ers 1991 i fyfyrwyr sy'n wynebu anawsterau ariannol. Nod y Gronfa yw rhoi cymorth ariannol i'r myfyrwyr hynny a allai gael eu rhwystro rhag mynd ymlaen i addysg bellach gan ystyriaethau ariannol neu anawsterau ariannol eraill. Mae myfyrwyr yn cael cymorth gyda chostau yn cynnwys teithio o'u cartref i'r coleg, gofal plant, deunyddiau dysgu a thalebau cinio.

Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru'n rhoi arian y Gronfa i SAB fel y gallant ei weinyddu i fyfyrwyr ar sail disgrisiwn. Dyraniad sefydliad unigol yw ei gyfran hanesyddol o'r gyllideb sydd ar gael bob blwyddyn. Fodd bynnag, mae'r sail ar gyfer y dyraniadau wedi bod ar waith ers blyneddau lawer. Nid yw'r sail resymegol ar gyfer y cyfrannau a roddir i bob sefydliad ar gael.

Y gwariant ar y Gronfa ym mlwyddyn ariannol 2018-19 oedd £6.3 miliwn. Gwneir dyraniadau i SAB, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'r Brifysgol Agored (OU). Cyfarfu swyddogion â chynrychiolwyr gweinyddwyr SAB ym mis Rhagfyr 2017, a chytunwyd y dylid datblygu methodoleg newydd sy'n dryloyw ac yn deg ac yn gallu cael ei hailadrodd.

Y fformiwla newydd arfaethedig

Awgrymodd Old Bell 3 y dylai niferoedd myfyrwyr ac amddifadedd fod yn ffactorau wrth ddatblygu fformiwla newydd ar gyfer dyrannu'r Gronfa.

Niferoedd myfyrwyr

Bydd ffynhonnell niferoedd myfyrwyr yn dod o'r data diweddaraf sydd wedi'i gyhoeddi sydd gan Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru. Mae'n cofnodi nifer y myfyrwyr llawn amser a rhan-amser sydd wedi'u cofrestru ym mhob sefydliad.

Roedd tystiolaeth o ddsbarthiad y Gronfa ym mlwyddyn academaidd 2016/17 yn dangos i 95% o'r dyfarniadau a'r cyllid gael eu gwneud i fyfyrwyr llawn amser. Felly, dylid pwysoli cyllid i'r sefydliadau hynny â mwy o fyfyrwyr llawn amser. Y pwysoliad sydd mewn golwg yw 95% yn seiliedig ar nifer y myfyrwyr llawn amser a 5% yn seiliedig ar nifer y myfyrwyr rhan-amser. Bydd hyn yn cymedroli'r dyraniad i sefydliadau fel Addysg Oedolion Cymru, lle mae mwyafrif y myfyrwyr yn astudio'n rhan-amser a bod ganddynt ffynonellau eraill o incwm o bosib.

Amddifadedd (incwm isel)

Cafodd y dangosyddion amddifadedd canlynol eu hystyried:

- **Cod post.** Nifer y dysgwyr AB sydd wedi'u cofrestru ym mhob sefydliad sydd â chod post cartref mewn ardal ag amddifadedd economaidd uwchlaw trothwy diffiniedig. Mae hyn yn seiliedig ar y dangosydd amddifadedd incwm o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (canran y boblogaeth sy'n derbyn budd-daliadau cysylltiedig ag incwm).¹ Mae'r dangosydd yn cael ei adnewyddu'n flynyddol a'i gyhoeddi mewn manylder daearyddol sy'n rhannu Cymru'n oddeutu 2,000 o ardaloedd bach (Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is, neu LSOA), pob un â chyfartaledd poblogaeth o ryw 1,600. Lluniwyd rhestr o godau post lle mae 25% neu fwy o'r boblogaeth yn cael budd-daliadau cysylltiedig ag incwm. Mae hyn yn cyd-fynd yn fras â'r 20% o LSOA mwyaf amddifad o ran incwm yng Nghymru.
- **Pobl sy'n derbyn Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) a/neu Grant Dysgu Llywodraeth Cymru.** LCA²: ar gael i fyfyrwyr AB llawn amser, 16-18 oed, ag incwm aelwyd hyd at £20,817 (neu £23,077, os oes person ifanc arall sy'n gymwys i gael budd-dal plant ar yr aelwyd). Mae'r Grant Dysgu ar gyfer AB³ ar gael i fyfyrwyr AB llawn amser a rhan-amser, 19 oed neu hŷn, ag incwm aelwyd o hyd at £18,370. Ym mlwyddyn academaidd 2016/17, derbyniodd tua 16,700 o ddysgwyr mewn SAB y LCA a derbyniodd tua 5,300 Grant Dysgu.

Credwn mai'r mesur o amddifadedd sy'n adlewyrchu orau nodweddion dysgwyr unigol mewn sefydliad arbennig yw nifer y rhai sy'n derbyn LCA a'r Grant Dysgu. Ar y llaw arall, byddai'r dangosydd sy'n ymwneud â chodau post dysgwyr yn adlewyrchu amddifadedd incwm mewn ardal lle mae dysgwr yn byw, yn hytrach nag a fyddai teulu'r dysgwr yn cael ei ystyried yn un sy'n wynebu amddifadedd incwm ai peidio.

Pwysoliad ar niferoedd myfyrwyr yn hytrach nag amddifadedd

Gan mai diben y Gronfa yw darparu cymorth ariannol i fyfyrwyr lle gallai ystyriaethau ariannol lesteirio'u gallu i symud ymlaen i addysg bellach neu fyfyrwyr sy'n wynebu anawsterau ariannol, cynigir y dylai pwysoliad y sbardunau ffafrio sefydliadau sydd â'r nifer mwyaf o fyfyrwyr incwm isel wedi cofrestru ar eu cyrsiau. Felly, awgrymir y dylid pwysoli'r fformiwla drwy ddyrannu 75% o'r cyllid yn ôl y dangosydd incwm isel, a 25% yn ôl cyfanswm nifer y myfyrwyr.

Am fwy o wybodaeth gweler:

¹ <https://gov.wales/statistics-and-research/welsh-index-multiple-deprivation/?lang=cy>

² <https://www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk/ab/lca/a-ydw-in-gallu-ei-gael.aspx>

³ <https://www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk/ab/gdllc-ab/a-ydw-in-gallu-ei-gael.aspx>

Ynghlwm yn **Atodiad 1** mae tabl yn arddangos y dyraniad i sefydliadau, ar ôl cymhwyso'r fformiwla newydd a argymhellir, yn erbyn eu dyraniad cyfredol.

Ffactorau eraill

Roedd Old Bell 3 yn argymell y dylai'r fethodoleg ddyrannu fod yn ddealladwy i SAB ac yn glir i'w rhoi ar waith. Er yr ystyriwyd cynnwys ffactorau eraill, fel pa mor wledig oedd y lleoliadau, argymhellir na ddylid cynnwys y ffactorau hyn. Mae ffactorau unigol amrywiol yn bwysig i sefydliadau unigol, ond byddant yn amrywio'n fawr rhwng sefydliadau ac nid ydynt yn hawdd eu mesur gan amlaf. Felly, ystyriwyd y byddai cynnwys ffactorau fel y rhain yn tanseilio tryloywder a symlrwydd y fformiwla dyrannu, a chyflwyno tuedd tuag at ffactorau penodol a fydd yn bwysicach i rai sefydliadau nag eraill. Gallai hefyd ogwyddo'r dyraniad tuag at faterion penodol y mae yna ymyriadau ar eu cyfer yn barod (e.e. trefniadau cludiant mewn ardaloedd arbennig neu ar gyfer grwpiau arbennig o ddysgwyr).

Cymhwyso'r fethodoleg

O dan y fethodoleg newydd, bydd y gyllideb gyffredinol yn cael ei dyrannu fel a ganlyn, yn ôl y paramedrau a ddisgrifir. Heb gynnwys y dyraniad cyfredol i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (£44,642.97), mae yna £6,255,357.03 o'r gyllideb gyffredinol i gael ei dyrannu yn unol â'r fformiwla. O hwn:

- caiff £4,691,517.77 (75%) ei ddyrannu ar sail nifer y dysgwyr sy'n cael y Grant Dysgu neu LCA, fel cyfran o'r cyfanswm;
- caiff £1,563,839.26 (25%) ei ddyrannu ar sail nifer y myfyrwyr, gyda:
 - £1,485,647.29 (95%) yn cael ei ddyrannu ar sail nifer y dysgwyr llawn amser, fel cyfran o'r cyfanswm
 - £78,191.96 (5%) yn cael ei ddyrannu ar sail nifer y dysgwyr rhan-amser, fel cyfran o'r cyfanswm.
- Yna bydd y ffigurau'n cael eu hadio ar gyfer pob sefydliad, ac yna bydd 33% o'r gwahaniaeth rhwng y dyraniad cyfredol a'r dyraniad sydd wedi'i gyfrifo yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y flwyddyn academaidd gyntaf o weithredu'r fformiwla.

Cyflwyno'r fformiwla dyrannu newydd

Mae SAB yn ymwybodol bod cyllid bob blwyddyn yn amodol ar y Gweinidog yn gwneud darpariaeth yn y gyllideb, gan nad oes rhwymedigaeth statudol i wneud cronfa galedi. Fodd bynnag, gan fod y cynllun wedi bod ar waith ers 25 mlynedd a mwy, mae yna ddisgwyliad ymysg myfyrwyr a'u rhieni y bydd cymorth ar gael gyda rhai costau, fel cludiant o'r cartref i'r coleg neu ofal plant, i'r rheini o deuluoedd incwm isel. Er mwyn rheoli'r disgwyliadau hyn ac effaith y newid yn y fethodoleg ar y SAB, cynigir bod y newidiadau i ddyraniadau'n cael eu cyflwyno dros gyfnod o dair blynedd. Byddai hyn yn galluogi unrhyw fyfyrwr sy'n dechrau ei gwrs ym Medi 2019 i gwblhau ei astudiaethau cyn i effaith lawn fformiwla newydd gael ei themlo.

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn gyfrifol am bob agwedd ar y rhaglen dysgu Cymraeg i Oedolion. Fe'i sefydlwyd mewn ymateb i'r adroddiad "*Codi Golygon: adolygiad o Gymraeg i Oedolion*". Ei nod yw denu dysgwyr newydd i'r iaith a chynyddu'r nifer sy'n defnyddio ac yn mwynhau'r Gymraeg bob dydd. Sefydlwyd y Ganolfan Genedlaethol ym Medi 2016 ac mae'n gweithio gyda rhwydwaith o un ar ddeg darparwr ledled Cymru sy'n addysgu cyrsiau ar ei rhan.

Cyn Medi 2016, roedd cyrsiau Cymraeg i Oedolion yn cael eu gweinyddu gan bum canolfan yng Nghymru, gyda phob un yn cael dyraniad o'r Gronfa. Cafodd y dyraniadau hyn eu cydgrynhoi yn 2016, gan roi cyfanswm o £44,643, a'u gweinyddu ar sail genedlaethol gan y Ganolfan. Gan fod y trefniant hwn yn gymharol newydd, gofynnodd swyddogion y Ganolfan a fyddai modd iddynt gael eu heithrio o weithredu'r fformiwla hyd nes eu bod yn hyderus eu bod yn gyfarwydd ag anghenion a gofynion eu myfyrwyr.

Enghraifft: Coleg Gwent

Darperir y data mewnbyn ar gyfer y fformiwla dyrannu ar ddiwedd y papur hwn. Bydd Coleg Gwent yn derbyn y dyraniad mwyaf o'r Gronfa, ar sail y fformiwla ddiwygiedig. Isod gallwch weld cam wrth gam sut cafodd dyraniad Coleg Gwent yn 2018/19 ei gyfrifo.

1. Cyfrifiad incwm isel:

	3,442	Nifer sy'n derbyn y Grant Dysgu ac LCA yng Ngholeg Gwent
wedi'i rannu gan	22,014	Cyfanswm sy'n derbyn y Grant Dysgu a'r LCA yn SAB Cymru
wedi'i luosi gan	£4,691,517.77	Swm y gyllideb a ddyrennir ar sail incwm isel
yn rhoi	£733,542.48	Dyraniad Coleg Gwent ar sail incwm isel

2. Cyfrifiad nifer myfyrwyr:

Cyfrifiad dysgwyr llawn amser

	7,455	Dysgwyr llawn amser yng Ngholeg Gwent
wedi'i rannu gan	47,335	Cyfanswm y dysgwyr llawn amser yn SAB Cymru
wedi'i luosi gan	£1,485,647.29	Swm y gyllideb a ddyrennir ar sail dysgwyr llawn amser
yn rhoi	£233,981.21	Dyraniad Coleg Gwent ar sail dysgwyr llawn amser

Cyfrifiad dysgwyr rhan-amser

	6,710	Dysgwyr rhan-amser yng Ngholeg Gwent
wedi'i rannu gan	67,660	Cyfanswm y dysgwyr rhan-amser yn SAB Cymru
wedi'i luosi gan	£78,191.96	Swm y gyllideb a ddyrennir ar sail dysgwyr llawn amser
yn rhoi	£7,754.48	Dyraniad Coleg Gwent ar sail dysgwyr rhan-amser

3. Cyfanswm y dyraniad ar gyfer 2018/19:

	£975,278.17	Y dyraniad a gyfrifwyd ar gyfer Coleg Gwent (swm y ffigurau uchod)
tynnu	£757,129.90	Dyraniad Coleg Gwent y flwyddyn flaenorol (2017/18)
yn rhoi	£218,148.27	Y newid a gyfrifwyd yn nyraniad Coleg Gwent
wedi'i luosi gan	0.33	Cyfran newid fesul cam a roddwyd ar waith yn 2018/19
yn rhoi	£71,998.93	Dyraniad Coleg Gwent gyda'r newid fesul cam
swm	£829,119	Dyraniad Coleg Gwent o'r Gronfa ar gyfer 2018/19 (wedi'i dalgrynnu)

Mae'r tabl isod yn dangos y data a ddefnyddiwyd yn y fformiwla arfaethedig ar gyfer dyraniad y Gronfa.

Sefydliad	Nifer y myfyrwyr		Derbynyddion incwm isel	
	Llawn amser	Rhan-amser	Grant Dysgu (AB)	LCA
Addysg Oedolion Cymru	0	15,150	23	6
Penybont	2,330	3,345	292	886
Coleg Caerdydd a'r Fro	4,500	4,245	957	1,533
Coleg Cambria	6,120	10,355	539	1,570
Coleg Ceredigion	630	415	92	243
Coleg Gwent [1]	7,455	6,710	821	2,621
Coleg Sir Gâr	2,505	2,100	217	990
Coleg y Cymoedd	4,940	3,425	681	1,908
Coleg Gŵyr	4,380	4,260	447	1,575
Grŵp Llandrillo Menai	6,025	10,470	674	1,995
Coleg Merthyr Tudful	1,750	385	167	667
Grŵp Castell-nedd Port Talbot	3,760	4,790	328	1,498
Coleg Sir Benfro	1,610	1,985	95	614
Coleg Dewi Sant	1,330	25	4	571
Cyfanswm	47,335	67,660	5,337	16,677

Ffynonellau: Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru a'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr

Nodwch mai ffigurau ar gyfer blwyddyn academiaidd 2016/17 yw'r rhain.

[1] Ac eithrio dysgwyr Cymraeg i Oedolion; 2015/16 yw'r ffigur mwyaf diweddar sydd ar gael.

Cafeatau a thybiaethau

Dylid nodi'r canlynol:

- Mae dyraniadau diwygiedig yn seiliedig ar y data diweddaraf sydd ar gael gan Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru a'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr, ar gyfer blwyddyn academiaidd 2016/17.
- Gallai'r fformiwla ddyrannu a amlinellir yn y papur hwn gael ei heffeithio gan unrhyw newid yn y dyfodol (e.e. meini prawf cymhwysedd) i bolisiau Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (AB) ac LCA.

Ein cwestiynau

1. Ydych chi'n cytuno y dylai'r fethodoleg ar gyfer dyrannu cyllideb y Gronfa Ariannol Wrth Gefn fod yn agored a thryloyw?
2. Ydych chi'n cytuno y dylai'r dyraniadau fod yn seiliedig ar nifer y myfyrwyr a mesur o anfantais economaidd?
3. Sut dylai anfantais economaidd gael ei fesur?
4. Ydych chi'n fodlon â'r pwysoliad sydd mewn golwg ar gyfer pob ffactor?
5. Oes unrhyw ffactorau eraill y dylid eu hystyried? Rhowch gyfiawnhad dros unrhyw ffactor(au) ychwanegol.
6. Sut byddech chi'n diffinio'r ffactor(au) ychwanegol?
7. Sut byddech chi'n mesur y ffactor(au) ychwanegol?
8. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar y fethodoleg arfaethedig?
9. Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r mater dan sylw yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
10. Pa effeithiau rydych chi'n credu y byddai? Sut y gellid gynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?
11. Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gall y polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a peidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
12. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny: